

# SWYDDOGAETHAU GWIRFODDOLI MEWN GLYBIAU

**Mae angen llawer o wahanol swyddogaethau i redeg clwb pêl droed ar lawr gwlad.**

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o rai o'r swyddogaethau y gallwch chi gymryd rhan ynddynt, esboniad byr o'u cyfrifoldebau a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn y rôl. Mae angen rhai o'r swyddogaethau - swyddogaethau gorfodol - fel rhan o aelodaeth ac achrediad y clwb gydag Ymddiriedolaeth CBDC ac mae eraill yn swyddogaethau y dylid eu hystyried yn seiliedig ar amgylchiadau eich clwb eich hun.

Mae templed disgrifiad swydd wedi'i ddarparu ar gyfer pob un o'r swyddogaethau gorfodol. Gallwch ddefnyddio'r rhain i'ch helpu chi gyda chynllunio adnoddau, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a'u cyflwyno i'w rôl.



# CYNNWYS

---

- 4 Cadeirydd
- 5 Trysorydd
- 6 Ysgrifennydd
- 7 Swyddog Diogelu Clwb (SDC)
- 8 Rheolwr Hyfforddwr/Tîm
- 9 Swyddog Cymorth Cyntaf
- 10 Hyrwyddwr COMET
- 12 Hyrwyddwr Cydraddoldeb
- 13 Ceidwad Tir
- 14 Cydlynnydd Gwirfoddolwyr
- 15 Cydlynnydd Hyfforddi
- 16 Ysgrifennydd/Cydlynnydd Gemau
- 17 Swyddog Achredu
- 18 Cydlynnydd Cyfryngau Cymdeithasol, Marchnata neu Gyfathrebu
- 20 Aelod o'r Pwyllgor/Bwrdd
- 20 Cynorthwy-ydd Clwb
- 20 Cymorth/Cynorthwy-ydd Tîm





# SWYDDOGAETHAU GORFODOL

---



## CADEIRYDD

Goruchwylio rhedeg y clwb, gan sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn effeithlon a'i reoli'n briodol.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Arwain cyfarfodydd clwb

---

Rhoi arweinyddiaeth gyffredinol i'r clwb

---

Cefnogi neu ddatblygu diwylliant / athroniaeth y clwb

---

Tasgau llysgenhadol i'r clwb

---

Cyswllt â phartneriaid lleol fel busnesau lleol, colegau a phrifysgolion, clybiau chwaraeon eraill

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydig ac ysgogol

---

Arweinydd da a all fod yn wrthrychol yn ogystal â chydymdeimladol

---

Hyderus a chyfathrebwr da; gallu cynrychioli'r clwb mewn cyfarfodydd allanol

---

Yn gallu sicrhau bod cyfarfodydd yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithlon

---

Hawdd mynd ato gyda sgiliau gwrando da

---

Trefnus iawn ac yn hapus i ddirprwyo



## TRYSORYDD

Sicrhau bod y clwb yn parhau'n gynaliadwy yn ariannol, yn talu'r holl gostau, ac yn casglu unrhyw arian sy'n ddyledus i'r clwb.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Cadw cofnodion manwl gywir o'r holl arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan ar ran y clwb

Cofnodi a chasglu tanysgrifiadau gan aelodau'r clwb

Darparu adroddiadau ariannol rheolaidd i'r pwyllgor

Sicrhau bod cyfrifon yn cael eu harchwilio (os oes angen) a'u cyflwyno yn y CCB

Cynllunio ariannol tymor hir i sicrhau cynaliadwyedd y clwb

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Trefnus iawn - yn gallu cadw cofnodion ariannol diweddar

Yn ofalus wrth drin arian a sieciau

Gonestrwydd a chywirdeb

Dealltwriaeth dda o rifau

Cyfathrebu cyllid yn syml i bobl nad ydynt yn deall cyllid yn arbennig o dda

Yn gallu ateb cwestiynau o natur ariannol mewn cyfarfodydd



## YSGRIFENNYDD

Rôl hanfodol mewn clwb; yr ysgrifennydd yw'r prif gyswllt ar gyfer swyddogion CBDC, cynghreiriau, rheolwyr timau, a'r clwb.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Gofalu am y prif ddyletswyddau gweinyddol

---

Goruchwylio aelodaeth o gynghreiriau a chystadlaethau cwpan

---

Casglu a thalu dirwyon

---

Gweinyddu holl ohebiaeth y clwb

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

---

Trefnus iawn

---

Yn brofiadol mewn sgiliau cyfrifiadurol a gweinyddol

---

Yn gallu cadw cyfrinachedd

---

Cyfathrebwr da, sgiliau llafar ac ysgrifenedig

---

Sgiliau gwrando da



## SWYDDOG DIOGELU CLWB (SDC)

Sicrhau bod y clwb yn gweithredu amgylchedd diogel, cyfeillgar i blant ac yn hyrwyddo arfer da yn unol â Pholisïau Diogelu a Lles CBDC a'r sefydliad.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Gweinyddu archwiliadau cofnodion troseddol - o'r enw archwiliadau DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Sicrhau bod gan hyfforddwyr a phersonél perthnasol archwiliadau DBS cyfredol a dilys a'u bod wedi cofrestru gyda'r clwb ar y system COMET

Sicrhau bod gan hyfforddwyr a phersonél perthnasol y cymwysterau angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau

Sicrhau bod y clwb yn cyrraedd lefel Safonol y Rhaglen Achredu Clybiau o leiaf (mewn partneriaeth â chydweithwyr clwb)

Gweithredu fel y pwynt cyswllt ar gyfer mân faterion diogelu / lles ar lefel clwb

Rhoi gwybod am faterion na ellir delio â hwy ar lefel clwb i Swyddog Diogelu'r Gynghrair neu dîm diogelu CBDC

Gweithredu arferion diogelu gorau ar lefel clwb

Cydymffurfio â Chod Ymddygiad y CSO

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Y gallu i gadw cofnodion

Y gallu i ddarparu cyngor sylfaenol, yn seiliedig ar bolisïau diogelu'r clwb a CBDC

Dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn

Didwylledd a dibynadwyedd

Sgiliau cyfathrebu da



## RHEOLWR/HYFFORDDWR TÎM

Bydd pob tîm angen rheolwr i drefnu gemau, arwain y tîm ar ddyddiau gemau a threfnu hyfforddiant. Rydym yn annog clybiau i rannu'r swyddogaethau hyn er mwyn ysgafnhau'r baich gwaith ar gyfer un person, ond rydym yn cydnabod y gallai'r person hwn fod yn hyfforddwr y tîm hefyd mewn rhai achosion. Mae mwy o wybodaeth am rannu swyddogaethau i'w [gweld yma](#).

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Trefnu sesiynau hyfforddi

---

Arwain timau ar ddyddiau gemau

---

Cyfleu logisteg i chwaraewyr

---

Cefnogi datblygiad chwaraewyr

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

---

Sylw i fanylder

---

Cynllunio ymlaen llaw

---

Ysgogwr

---

Cymhwyster hyfforddi perthnasol ac archwiliad DBS





## SWYDDOG CYMORTH CYNTAF

Mae angen o leiaf UN person cymwys mewn cymorth cyntaf ar gyfer pob tîm grŵp oedran i sicrhau diogelwch pob chwaraewr.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Rheoli unrhyw ddigwyddiad cymorth cyntaf

Sicrhau bod pawb yn ddiogel

Cysylltu â gweithiwr meddygol proffesiynol, rhieni, gofalwyr

Cadw cofnodion manwl gywir o ddigwyddiadau

Cadw'r cit a'r offer cymorth cyntaf yn gyfredol gyda stoc dda

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Y gallu i gadw cofnodion

Y gallu i roi cymorth cyntaf, yn seiliedig ar gwrs cymorth cyntaf CBDC

Didwylledd a dibynadwyedd

Sgiliau cyfathrebu da

Y gallu i beidio â chynhyrfu o dan bwysau

Gweithio'n dda mewn tîm



## HYRWYDDWR COMET

Bod yn brif gyswllt a phrif ddefnyddiwr COMET (COMET yw ein system gweinyddu clybiau ar-lein).

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Cefnogi aelodau eraill y clwb i ddefnyddio'r system

Sefydlu a diwygio defnyddwyr o fewn system y clwb

Helpu i ddatrys problemau a brofir gan y clwb ar COMET

Cadw cofnodion yn gyfredol

Bod yn gyswllt allweddol ar gyfer CBDC

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Trefnus iawn

Yn brofiadol mewn sgiliau cyfrifiadurol a gweinyddol

Angerdd dros ddysgu a datblygu yn enwedig mewn perthynas â COMET

Mae diddordeb / profiad o dechnoleg yn ddefnyddiol, ond nid yw'n ofynnol

Sylw i fanylder





# SWYDDOGAETHAU A ARGYMHELLIR

---



## HYRWYDDWR CYDRADDOLDEB

Bod yn eiriolwr yn y clwb i ddatblygu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI).

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Arwain ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Annog sgysiau gweithredol am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y Clwb

Sicrhau bod gan y clwb bolisiau a gweithdrefnau cyfredol, a'i fod yn cadw at ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a chanllawiau Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Rhoi cyngor ac arweiniad i Swyddogion ac Aelodau'r Clwb, gan gyfeirio at wasanaethau priodol lle bo angen

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Sgiliau gwrandao da

Gonestrwydd ac uniondeb

Agwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r gallu i ysbrydoli eraill



## CEIDWAD TIR

Cwblhau'r amserlen gynnal a chadw flynyddol a pharatoi'r cae(au) ar gyfer dyddiau gemau.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Paratoi a chynnal a chadw'r cyfleuster (au) yn unol â'r rhaglen gynnal a chadw flynyddol

---

Sicrhau bod y cae(au) yn barod ar gyfer gemau

---

Paratoi a chynnal a chadw unrhyw offer

---

Cyfathrebu â hyfforddwyr, aelodau'r pwyllgor ac eraill ynghylch y defnydd o gyfleusterau

---

Yn dilyn rheoliadau iechyd a diogelwch angenrheidiol

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Yn mwynhau gweithio yn yr awyr agored

---

Sylw da i fanylder

---

Hapus i weithio ar eich pen eich hun

---

Hunangymhelliant gwych

---

Sgiliau cynllunio, trefnu a rheoli amser rhagorol



## CYDLYNYDD GWIRFODDOLWYR

Helpu i ddatblygu diwylliant gwirfoddoli yn y clwb, o gynllunio a recriwtio gwirfoddolwyr i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, a bod ganddynt yr hyder a'r wybodaeth i gyflawni eu swyddogaethau.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer gwirfoddolwyr presennol a darpar wirfoddolwyr

Annog mwy o bobl i helpu

Rhoi pobl mewn swyddogaethau sy'n addas i'w sgiliau, eu diddordebau a'u hargaeledd

Rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i wirfoddolwyr newydd i'w helpu i gyflawni eu rôl

Sicrhau bod y clwb yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod cyfraniad ei wirfoddolwyr

Cadw'r grŵp presennol o wirfoddolwyr wrth feithrin y sylfaen

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Sgiliau trefnu da

Personoliaeth gyfeillgar ac agos atoch chi

Sgiliau cyfathrebu gwych

Empathi - mae bod yn gydwirfoddolwr yn helpu

Dealltwriaeth o reoli amser



## CYDLYNYDD HYFFORDDI

Datblygu strwythur hyfforddi bywiog, sy'n ceisio sicrhau bod chwaraewyr yn cael profiadau pleserus a datblygiadol, trefnu sesiynau mentora a chyfleoedd i gefnogi hyfforddwy'r i ddatblygu a gwneud cynnydd ynghyd â chefnogi recriwtio hyfforddwy'r newydd ochr yn ochr â Chydlynnydd Gwirfoddolwyr y clwb.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Creu strwythur hyfforddi priodol ar gyfer y clwb, yn seiliedig ar ei faint a'i ffocws

Gweithredu system fentora a chefnogi ar gyfer rheolwyr / hyfforddwy'r timau newydd a phresennol

Hyrwyddo a chyfeirio rheolwyr / hyfforddwy'r timau at gyfleoedd datblygu hyfforddwy'r

Cyfeirio rheolwyr / hyfforddwy'r timau at gyrsiau addysgu hyfforddwy'r a chyfleoedd datblygu perthnasol

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

Sgiliau cyfathrebu gwych

Gwybodaeth am y llwybr hyfforddi a chyfleoedd datblygu

Sgiliau gwrando da



## YSGRIFENNYDD / CYDLYNYDD GEMAU

Yn gyfrifol am drefnu caeau ar gyfer gemau cartref a sicrhau bod timau'r clwb yn gallu chwarae eu holl gemau.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Archebu cyfleusterau

---

Cyfathrebu â'r tîm sy'n ymweld neu'r gynghrair

---

Cysylltu â cheidwaid tir

---

Cyfathrebu â rheolwyr a hyfforddwyr cartref

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

---

Trefnus iawn

---

Yn brofiadol mewn sgiliau cyfrifiadurol a gweinyddol

---

Cyfathrebwr da, sgiliau llafar ac ysgrifenedig





## SWYDDOG ACHREDU

Cwblhau'r broses achredu clybiau flynyddol.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Pennu lefel yr achrediad yr hoffai'r clwb ei gyflawni

---

Adolygu'r meini prawf a gweld beth sydd gan y clwb a'r hyn sydd ei angen

---

Cwblhau'r broses ymgeisio

---

Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer Ymddiriedolaeth CBDC

---

Cyfathrebu cyflawniad y clwb i aelodau a'r gymuned ehangach

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Brwdfrydedd

---

Cyfathrebwr da, sgiliau llafar ac ysgrifenedig

---

Yn brofiadol mewn sgiliau cyfrifiadurol a gweinyddol

---

Angerdd dros ddysgu a datblygu yn enwedig mewn perthynas â COMET

---

Y gallu i gadw cofnodion a chadw golwg ar gymwysterau rhagorol sydd ar ddod

---

Dealltwriaeth o reoli amser



## CYDLYNYDD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL, MARCHNATA NEU GYFATHREBU

Mae'r rôl yn hyrwyddo gweithgareddau'r clwb gyda'r nod o godi proffil a thrwy hynny gynyddu aelodaeth y clwb, cynyddu'r incwm neu wella enw da'r clwb.

### TASGAU NODWEDDIADOL:

Codi proffil y clwb yn y gymuned

---

Meithrin perthnasoedd gyda'r cyfryngau lleol

---

Sicrhau bod gwefan y clwb a'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn darparu gwybodaeth gyfredol a pherthnasol

---

Adrodd ar ddiwyddiadau'r clwb a llunio adroddiadau gemau

---

Cynnal ymgyrchoedd bach ar gyfryngau cymdeithasol

### SGILIAU DEFNYDDIOL AR GYFER Y RÔL HON:

Hyderus ac agos atoch chi

---

Brwdfrydig ac yn naturiol chwilfrydig

---

Cyfathrebwr cadarn, gyda sgiliau ysgrifennu a llafar da

---

Trefnus iawn

---

Yn brofiadol mewn sgiliau cyfrifiadurol - yn chwilfrydig am blatfformau digidol

---

Diddordeb mewn marchnata / hyrwyddo / cyfryngau cymdeithasol neu ddelio â'r cyfryngau lleol



# SWYDDOGAETHAU ERAILL

---



## SWYDDOGAETHAU ERAILL

Mae llawer o glybiau llwyddiannus wedi cyflwyno swyddogaethau mwy anffurfiol hefyd a all fod yn rhan o'r pwyllgor neu a all 'helpu' swyddogaethau eraill yn unig. Gall y swyddogaethau anffurfiol hyn ychwanegu gwerth gwirioneddol ar adegau yn ystod y tymor a gallant fod yn fan cychwyn gwych i ddarpar aelodau pwyllgor - felly gwnewch hwn yn brofiad gwych!

## AELOD O'R PWYLLGOR/BWRDD

Efallai y bydd gan rai clybiau un neu fwy o aelodau pwyllgor 'cyffredinol' sy'n chwarae rhan bwysig yn cefnogi'r clwb. Ystyriwch greu disgrifiad rôl ar gyfer y rôl hon, gan ddarparu tasgau penodol y gellid eu gwneud fesul tymor ac ystyried recriwtio'r gefnogaeth fwy cyffredinol hon gan eich cynorthwywyr fel y manylir isod. Gan ddibynnu ar faint a strwythur cyfreithiol y clwb, gall y swyddogaethau hyn chwarae rhan fel 'Aelod Pwyllgor neu Fwrdd Annibynnol' a byddant yn helpu i ddarparu arbenigedd neu gyngor yn wrthrychol i gefnogi'r clwb.

## CYNORTHWY-YDD CLWB

Rhywun sy'n helpu yn achlysurol, gyda phopeth o arlwyyo neu luniaeth ar ddiwrnod gêm i gefnogi digwyddiadau'r clwb. Gall creu tîm o gynorthwywyr apelio at gefnogwyr y clwb sy'n hapus i gymryd rhan yn achlysurol.

## CEFNOGWR/CYNORTHWY-YDD TÎM

Yn aml bydd hyfforddwyr timau neu reolwyr timau'n cael cefnogaeth ychwanegol sy'n helpu gyda thasgau gweinyddu neu'n darparu cefnogaeth gyffredinol 'oddi ar y cae' wrth hyfforddi neu ar ddiwrnod gêm.

Gellir defnyddio disgrifiadau rôl neu dasgau i helpu darpar gynorthwywyr i ddeall beth fydd yn gysylltiedig, ond byddwch yn ofalus rhag gwneud hyn yn rhy ffurfiol oherwydd gallai wneud i rai pobl benderfynu peidio â chymryd rhan.

